Rhondda Cynon Taf
**Hinsawdd Ystyriol**

**Think Climate**
Rhondda Cynon Taf




Rhondda Cynon Taf (2022- 2025)

# Gwneud Rhondda Cynon Taf yn garbon niwtral erbyn 2030

Strategaeth wedi'i chytuno gan y Cabinet ar 22 Mehefin 2022

RHONDDA CYNON TAF

## Mae llawer o nodweddion trawiadol ac unigryw gydag ein bwrdeistref sirol. Gall trigolion, busnesau ac ymwelwyr â Rhondda Cynon Taf elwa arnyn nhw nawr ac yn y dyfodol.

Mae'r nodweddion yma'n cynnwys ardal enfawr o dirwedd lled-naturiol wedi'i gorchuddio â llawer iawn o goed. Hefyd, mae ystod eang o fywyd gwyllt, yn gyffredin ac yn brin, fwy neu lai ar ein stepen drws. Mae hyd yn oed ein treftadaeth mwyngloddio yn cynnig y potensial i greu ynni i ni. Rydyn ni hefyd yn wynebu heriau unigryw. Mae effaith ddinistriol llifogydd Ciara, Dennis a Jorge yn 2020 ar Rondda Cynon Taf a'r ardaloedd cyfagos yn arwydd cynnar o effaith y gaeafau cynhesach a gwlypach y gallwn ni eu disgwyl yn hemisffer y gogledd. Mae'r rhain yn deillio o effaith y newid yn yr hinsawdd sydd hefyd yn effeithio ar blanhigion ac anifeiliaid a'r prosesau naturiol rydyn ni i gyd yn dibynnu arnyn nhw.

Yn ôl rhagolygon sy'n deillio o ddata **Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol 2021 Llywodraeth Cymru**, erbyn 2050 yng Nghymru

- Bydd tymheredd cyfartalog yr haf yn cynyddu 1.34°
- Bydd dyddodiad glaw yn gostwng 16% yn yr haf ac yn codi 5% yn y gaeaf
- Ymhlith pethau eraill, bydd y newidiadau yma yn y tywydd yn effeithio ar yr amgylchedd ac ecosystemau

Ledled Cymru, mae'r tymheredd yn codi eisoes ac yn newid cynefinoedd. **Mae hyn yn effeithio ar blanhigion a bywyd gwyllt yn ogystal ag amodau'r pridd a thirweddau**. Mae lefel y môr yn codi mewn ardaloedd arfordirol ac yn bygwth chwalu amddiffynfeydd. Mae stormydd mwy pwerus yn digwydd yn amlach ac yn cynyddu'r risg o lifogydd. Bydd mwy o law yn y gaeaf, gormod o law mewn cyfnod byr a newidiadau ym mhob tymor yn cyfrannu at amodau llifogydd a sychder. Rydyn ni eisoes yn profi niferoedd cynyddol o ddigwyddiadau ac achosion o law trwm, ac mae disgwyl i'r cynnydd yma barhau, gan gynyddu'r risg o afonydd yn gorlifo a llifogydd sydyn. Bydd tymheredd uwch hefyd yn effeithio ar rywogaethau ac ecosystemau, priddoedd, amaethyddiaeth a choedwigaeth, gan ddod â rhywogaethau, plâu a chlefydau mwy ymledol.

Mae digwyddiadau tywydd mwy eithafol hefyd yn cynnwys tywydd poeth amlach a fydd yn effeithio ar ein hiechyd, ein bywoliaeth ac i lawer o bobl hŷn ac agored i niwed, eu disgwyliad oes. Ar gyfer y boblogaeth sy'n heneiddio yn Rhondda Cynon Taf, dyma un o'r risgiau sylweddol y mae angen ei rheoli. Mae risgiau eraill yn cynnwys y cyflenwad bwyd a nwyddau a gwasanaethau hanfodol oherwydd methiant yn y cadwyni cyflenwi a rhwydweithiau dosbarthu sy'n gysylltiedig â'r newid yn yr hinsawdd.

Mae pobl, cymunedau a gwledydd eisoes yn cael eu heffeithio gan y newid yn yr hinsawdd. Dydy'r effeithiau yma ddim yr un peth i bawb. Mae rhywedd, oedran a statws economaidd yn effeithio ar ein gallu i ymateb. Mae pobl dlotach yn dioddef fwyaf gan mai nhw sydd fwyaf tebygol o fethu â symud tŷ, fforddio amddiffyn eu hunain neu dalu mwy am fwyd, trafnidiaeth a materion yn ymwneud â thai. Rydyn ni'n gwybod fod iechyd y blaned yn effeithio ar iechyd y cyhoedd ac mae pob tunnell o garbon a gaiff ei hallyrru yn cynyddu'r effeithiau yma. Yn nes at adref, mae **Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol** Llywodraeth Cymru hefyd yn nodi bod swyddi sgiliau is neu swyddi ailadroddus yn wynebu risg uwch o gael eu hawtomeiddio yn y dyfodol o'u cymharu â galwedigaethau medrus iawn. Hefyd, mae pobl iau a menywod yn fwy tebygol o gael eu cyflogi mewn swyddi sydd â thebygolrwydd uchel o gael eu hawtomeiddio yn y dyfodol.

Serch hynny, mae modd i ni hefyd greu cyfleoedd economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol wrth i ni ddarparu gwasanaethau, eu comisiynu a'u caffael.

Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan argyfyngau o ran **yr hinsawdd** a **byd natur**, a nod Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru, **a gafodd ei diweddaru ym mis Rhagfyr 2021**, yw mynd i'r afael â'r argyfyngau yma. Rydyn ni yn y Cyngor wedi ymrwymo i chwarae ein rhan. Mae hyn yn golygu lleihau ein hallyriadau, h.y. lliniaru o ran yr hinsawdd, a deall risgiau lleol yn well fel bod modd i ni addasu i'r newidiadau sy'n digwydd nawr ac yn y dyfodol.

Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, rydyn ni yn y Cyngor wedi rhoi mesurau effeithlonrwydd ynni ar waith yn ein hadeiladau, ein hysgolion a'n goleuadau stryd ac wedi cynyddu faint o wastraff trigolion sy'n cael ei ailgylchu. O ganlyniad i'r gwaith yma, rhwng 2014/15 a 2018/19 fe wnaeth y Cyngor allyrru 15,884 o dunelli o garbon yn llai, sef gostyngiad o 45.24%. Mae ein cynnydd cadarnhaol mewn perthynas ag ailgylchu gwastraff wedi golygu ein bod ni wedi cynyddu ein targed ailgylchu ar gyfer 2024/25 i 80%, sy'n rhagori ar y targed cenedlaethol wedi'i osod gan Lywodraeth Cymru.

Yn 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **ganllaw sector cyhoeddus ar gyfer adrodd ar garbon sero-net**. Mae'n darparu cyfrifiad cenedlaethol cyson "i amcangyfrif allyriadau sylfaenol, nodi ffynonellau sy'n flaenoriaeth a monitro cynnydd tuag at sicrhau'r uchelgais ar y cyd, sef sector cyhoeddus carbon niwtral erbyn 2030". Gan ddefnyddio'r canllaw yma ar gyfer ein cyfrifiadau, gallwn ni ddangos mai ein hallyriadau net ar gyfer ein gwasanaethau a'n gwaith yn 2020/21 oedd 67,610 tCO2e, sef 32% yn llai na 2019/20. Serch hynny, rydyn ni hefyd yn gwybod bod y gostyngiad yma'n adlewyrchu'r newidiadau eithriadol a hanfodol a gafodd eu rhoi ar waith yn ystod y pandemig mewn perthynas â gwasanaethau a gwaith, ac mae'r cyfrifiad cenedlaethol cyson yn cael ei fireinio ar hyn o bryd.

Rydyn ni hefyd wedi cynyddu faint o ynni adnewyddadwy rydyn ni'n ei gynhyrchu wrth fuddsoddi mewn gweithfeydd pŵer solar a gwynt a defnyddio'r ynni sy'n cael ei greu i ddarparu gwasanaethau'r Cyngor. Yn 2020/21 fe wnaethon ni gynhyrchu 2 fegawat (MW) o ynni o baneli solar ar ein hysgolion ac ar adeiladau'r Cyngor.

Mewn cyd-destun ehangach, mae data llywodraeth y DU yn 2021 yn dweud wrthon ni fod **1042.6** cilotunnell o CO2e wedi'i allyrru ledled y Fwrdeistref Sirol yn 2019. Dyma 33.7% – neu 529 cilotunnell – yn llai nag yn 2005.

O'n rhan ni, mae cynnydd ar droed i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd, ond mae angen i ni i gyd wneud rhagor – a'i wneud yn gyflymach – os ydyn ni am leihau ein hallyriadau carbon, helpu i wrthdroi'r difrod i'n planed ac addasu i'r newidiadau sydd eisoes yn mynd rhagddo, yn y Cyngor ac yn y fwrdeistref sirol. Yma yn y Cyngor byddwn ni'n parhau i arwain trwy esiampl, yn enwedig yn y meysydd hynny lle rydyn ni'n cael yr effaith fwyaf, gan weithio ar y cyd â'n partneriaid i sicrhau ein bod ni'n defnyddio'n holl adnoddau i'r eithaf.

Dyma ein cynllun i gyflawni ein hymrwymiadau i leihau allyriadau carbon ledled y Cyngor a'r fwrdeistref sirol, ac wrth wneud hynny chwarae ein rhan i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd.



## Erbyn 2030:

- Bydd Cyngor Rhondda Cynon Taf yn garbon niwtral
- Bydd y fwrdeistref sirol gyfan mor agos â phosibl at fod yn garbon niwtral
- Bydd ein gwaith ar y cyd â phartneriaid wedi sicrhau y bydd pob sefydliad cyhoeddus a phreifat sy'n gweithredu yn y fwrdeistref sirol yn garbon niwtral erbyn 2040
- Bydd Rhondda Cynon Taf wedi cyfrannu at uchelgais Llywodraeth Cymru o gael sector cyhoeddus sero net erbyn 2030

***Er mwyn gwireddu ein gweledigaeth, bydd y Cyngor yn parhau i ddarparu arweinyddiaeth gref i'r gymuned a chreu amgylchedd glanach a gwyrddach er mwyn i bobl a busnesau fod yn annibynnol, yn iach ac yn llewyrchus ac i ecosystemau naturiol ffynnu. Byddwn ni'n chwarae ein rhan wrth fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd a gwarchod y blaned. Byddwn ni hefyd yn addasu ein gwasanaethau a'n gwaith fel bod modd i ni fynd i'r afael â'r heriau sydd o'n blaenau mewn perthynas â'r hinsawdd.***

**Yn ein Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2020-24, Gwneud Gwahaniaeth, mae'r Cyngor yn cydnabod mai cyflawni ein hymrwymiad i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd yw ein her fwyaf. Yn ein cynllun, gwnaethon ni ymrwymo i gyflawni tair prif flaenoriaeth. Bydd pob un o'r rhain yn cyfrannu at fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd ac yn elwa ohono:**

## Sicrhau bod **Pobl**

*yn annibynnol, yn iach ac yn llwyddiannus*

## Creu **Lleoedd**

*mae pobl yn falch o gael byw a gweithio ynddyn nhw*

## Galluogi **Ffyniant**

*gan greu'r cyfle i bobl a busnesau fod yn arloesol, yn entrepreneuraidd ac i gyflawni eu potensial a ffynnu*

Mae'r ymrwymiadau i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd isod yn sail i bob un o'n blaenoriaethau. Mae'r ymrwymiadau yma wedi'u llunio gan ddefnyddio’r wybodaeth orau sydd ar gael ar adeg o flaenoriaethau lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a byd-eang arwyddocaol a chystadleuol, gyda llywodraethau a busnesau fel ei gilydd yn cyflwyno cyfleoedd newydd sy'n gallu datblygu a newid yn gyflym. Mae cyflymder y newid hefyd yn destun pwysau cynyddol gan bobl yn lleol a ledled y byd i weithredu ar faterion yn ymwneud â'r hinsawdd. Mae’r ymrwymiadau i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd hefyd yn dangos ein bod ni am wneud y mwyaf o'r gwerth economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol sydd ar gael, a hynny drwy ddarparu seilwaith carbon isel.

Rydyn ni'n mynd ati i geisio lleihau allyriadau carbon er mwyn cyflawni ein hymrwymiadau mewn nifer o ffyrdd amrywiol, ond does dim modd nodi pob un mewn un cynllun yn unig. Mae’r cynllun yma'n fframwaith ac yn ganllaw i lywio'r hyn rydyn ni'n ei wneud a sut rydyn ni'n dyrannu ein hadnoddau er mwyn lleihau ôl troed carbon y Cyngor a’r fwrdeistref sirol. Byddwn ni'n dysgu o arferion gorau, gan gael gwared ar rwystrau a chryfhau ein trefniadau o ran data fel bod modd i ni herio a dangos ein cynnydd yn well. Mae llawer o'r gwaith y cynllun yma hefyd i'w weld yn rhan o gynlluniau, strategaethau a pholisïau eraill y Cyngor, ac mae'r rhai mwyaf perthnasol wedi'u cynnwys yn Atodiad B er gwybodaeth.

Byddwn ni'n gweithio yn ôl cynllun cyflawni Llywodraeth Cymru ar gyf **Cymru carbon isel**, **'Cymru Sero Net - Cyllideb Garbon (2)'** a'i gamau i leihau neu ddileu allyriadau nwyon tŷ gwydr ("datgarboneiddio") o'r sector cyhoeddus yng Nghymru.



## Mae ein hymrwymiadau i leihau carbon yn y Cyngor yn cynnwys:

1. Lleihau **ôl troed carbon y Cyngor** yn ei holl waith, gyda phwyslais arbennig ar nwyddau a gwasanaethau wedi'u caffael ac adeiladau/eiddo. Mae'r rhain yn cynnwys y gyfran fwyaf o'n hôl troed carbon.
2. Lleihau'r galw am ynni, gwella effeithlonrwydd ynni gwasanaethau ac adeiladau/eiddo, a gwreiddio lleihau carbon ym mhopeth rydyn ni'n ei wneud.
3. Defnyddio tir y sector cyhoeddus ar gyfer cynhyrchu ynni gwyrdd/dal a storio carbon, rheoli risg llifogydd, cynyddu bioamrywiaeth a thyfu cymunedol.
4. Parhau i fuddsoddi mewn gosod paneli ynni solar ar adeiladau'r Cyngor a sicrhau bod yr holl ysgolion, swyddfeydd, cartrefi ac adeiladau masnachol newydd yn y fwrdeistref sirol yn cael eu hadeiladu i safon sero net.
5. Cyflenwi gwres carbon isel i'n holl adeiladau a swyddfeydd a/neu gynhyrchu ein trydan ein hunain.
6. Datblygu ymhellach y defnydd o hydrogen ar gyfer celloedd tanwydd yng ngherbydau ac adeiladau'r Cyngor.
7. Sicrhau ein bod ni'n ailgylchu neu'n ailddefnyddio 80% o'r holl wastraff dinesig erbyn 2025.
8. Sicrhau ein bod ni'n deall potensial atafaelu tir yn ein perchnogaeth erbyn mis Mawrth 2023, ac ymrwymo i gymryd camau i wireddu'r potensial yma erbyn mis Mawrth 2030.
9. Sicrhau bod holl adeiladau/eiddo'r Cyngor, gan gynnwys ysgolion, sy'n cael eu hadeiladu neu eu hadnewyddu yn cyrraedd safon sero net erbyn 2030.
10. Er mwyn cyrraedd targed Cymru ar gyfer sefydliadau'r sector cyhoeddus, anelu at gael ein holl geir a cherbydau nwyddau ysgafn newydd yn gerbydau allyriadau isel iawn erbyn 2025, a lle bo'n ymarferol bosibl, ein cerbydau nwyddau trwm yn gerbydau allyriadau isel iawn erbyn 2030.
11. Byddwn ni ond yn ceisio caffael nwyddau a gwasanaethau gan fusnesau sy'n ymdrechu i leihau eu hallyriadau carbon. Wrth wneud hyn byddwn ni'n mynd ati i gefnogi cyflenwyr carbon isel a lleol yn rhan o'n broses drawsnewid ehangach i fod yn sero net.
12. Datblygu ymwybyddiaeth, gwybodaeth, sgiliau ac arbenigedd staff i alluogi'r Cyngor i gyflawni ein targedau ac ymateb i'r argyfyngau mae Llywodraeth Cymru wedi'u datgan o ran **yr hinsawdd** a **byd natur**.
13. Parhau i leoli gwasanaethau yn agosach at y bobl sy'n eu defnyddio, yn gweithio gyda nhw ac yn ymweld â nhw.
14. Lleihau nifer y staff sy'n teithio mewn car drwy barhau i ddefnyddio technoleg i'r eithaf, annog teithio llesol a defnydd ehangach o drafnidiaeth gyhoeddus. Bydd hyn yn lleihau cymudo mewn ceir a theithio ar gyfer busnes yn sylweddol.
15. Codi ymwybyddiaeth yr holl staff o newid yn yr hinsawdd a lleihau carbon.
16. Gwella ansawdd, hygyrchedd, trefniadau casglu ac adrodd ar ddata er mwyn olrhain ein cynnydd tuag at gyflawni ein targedau lleihau carbon a'n cyfraniad at uchelgais a thargedau Llywodraeth Cymru.
17. Gweithio ar y cyd â:
    - partneriaid lleol, rhanbarthol a chenedlaethol i wneud y mwyaf o adnoddau
    - Llywodraeth Cymru, er mwyn rhoi cynllun ynni lleol manwl ar waith erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2023-24.

**Y Cyngor yw un o gyflogwyr mwyaf Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, ac mae tua 80% o'r staff yn byw yn y fwrdeistref sirol. Ym mis Mai 2022, roedd ein portffolio eiddo yn cynnwys 448 o safleoedd y Cyngor a 936 o adeiladau unigol o wahanol feintiau ledled y fwrdeistref sirol, a gall ein gwaith wneud gwahaniaeth mawr. Mae llawer y gallwn ni ei wneud yn lleol i fod yn rhan o ddatrys y broblem fyd-eang mewn perthynas â'r hinsawdd. Daw hyn gan gynghorwyr yn cynrychioli eu cymunedau, gan y Cyngor yn chwarae ei ran wrth ddarparu arweinyddiaeth gref yn y gymuned, wrth fod yn gefnogol a chraffu, ac wrth hyfforddi ei staff o ran materion yn ymwneud â'r hinsawdd, i fod yn effro iddyn nhw, a'u hannog i gefnogi mentrau cysylltiedig â nhw.**

# Ein dull



## Ledled y fwrdeistref sirol ehangach, bydd ein llwyddiant yn dibynnu ar y Cyngor yn chwarae ei ran i warchod y blaned ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol a gweithio ar y cyd â chyrff a sefydliadau cyhoeddus eraill i sicrhau bod y gwaith yma'n cael yr effaith fwyaf bosibl.

Mae hyn yn cynnwys annog pob aelod o staff, eu cynrychiolwyr, Aelodau Etholedig, trigolion, busnesau lleol ac ymwelwyr newid eu ffordd o fyw a'u dewisiadau a'i gwneud hi'n haws iddyn nhw wneud y newidiadau angenrheidiol. Bydd cael pobl iau i gymryd rhan yn allweddol i greu, datblygu a chyflawni'r cynllun yma yn yr hirdymor. Byddwn ni'n parhau i ddod â nhw'n rhan o bethau trwy gynghorau eco mewn ysgolion, ein fforymau ieuenctid, a thrwy sefydliadau cymunedol eraill. Roedd y bwriad i fwrw ymlaen â'n gwaith, yn enwedig wrth ymgysylltu â phobl wyneb yn wyneb, wedi'u heffeithio gan gyfyngiadau'r pandemig ond rydyn ni'n awyddus erbyn hyn i roi'n troed ar y sbardun o ran ein cynlluniau gan fod y cyfyngiadau wedi'u codi.

Yn ogystal â gwrando ar yr hyn y mae pobl, cymunedau a busnesau yn ei ddweud wrthon ni, mae angen i ni hefyd gefnogi a herio Llywodraeth Cymru i wneud yn well ac i chwalu unrhyw rwystrau cenedlaethol sy'n ein rhwystro rhag gweithredu'n lleol.

Mae ein Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd a'n hymrwymiadau yn cyd-fynd yn uniongyrchol â'n Cynllun Corfforaethol ac mae ei huchelgeisiau'n cael eu gwreiddio yn ein holl gynlluniau a phrosesau fel bod 'gwyrdd' yn dod yn brif ffrwd yn Rhondda Cynon Taf.

# Hinsawdd Ystyriol – LLEOEDD

## Defnyddio adnoddau Rhondda Cynon Taf i gynhyrchu ynni gwyrdd i'w ddefnyddio mewn adeiladau a chartrefi lleol ac i bweru cerbydau trydan

Ymhlith pethau eraill, dywedodd trigolion wrthon ni eu bod nhw am i ni gynhyrchu ynni o ffynonellau adnewyddadwy.

### Mae ein cynlluniau'n cynnwys:

1. Ymchwilio i gyfleoedd i ddatblygu cynlluniau trydan dŵr ar raddfa fach ar afonydd a nentydd, a'u cyflawni, e.e. ffynnon thermol Ffynnon Taf.
2. Bwrw ymlaen â chynlluniau ynni gwynt, dŵr a solar i leihau'r gost o ddiwallu ein hanghenion ynni a chreu incwm, gan leihau ein hôl troed carbon ar yr un pryd.
3. Gweithio ar y cyd â phartneriaid gan gynnwys Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, Cyfoeth Naturiol Cymru a Chynghorau Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a Phen-y-bont ar Ogwr i wneud y mwyaf o adnoddau pawb er mwyn cynhyrchu ynni gwyrdd ledled y rhanbarth.
4. Ymchwilio i brosiectau ynni ar y cyd yn y gymuned a fydd yn darparu ynni gwyrdd rhad i drigolion a busnesau ei brynu, gan gynnwys ynni ar gyfer gwefru cerbydau trydan ar dir cyhoeddus.
5. Ymchwilio i opsiynau posibl i ddefnyddio ffynonellau ynni sy'n bodoli eisoes, gan gynnwys:
   a. gwres gwastraff a gaiff ei gynhyrchu ym Mryn Pica.
   b. ynni geothermol o hen byllau glo.
6. Cyfrannu at gamau gweithredu yn rhan o Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd i ymchwilio i opsiynau ar gyfer economi hydrogen a chynhyrchu ynni gwyrdd i bweru ein busnesau diwydiannol a masnachol.






### Mesurau/targedau:

- *Cynyddu'r ynni adnewyddadwy lleol a gaiff ei gynhyrchu o dir neu adeiladau'r Cyngor o linell sylfaen 2021/22 (2 MW) i 20 MW erbyn 2025.*
- *Data llinell sylfaen ar gwblhau ffynnon Ffynnon Taf yng nghanol 2022 a rhoi trefniadau ar waith ar gyfer casglu a monitro data ynni dilynol.*



## Gwneud i wastraff weithio i Rondda Cynon Taf

Ymhlith pethau eraill, dywedodd trigolion wrthon ni eu bod nhw am i ni ddarparu gwell gwybodaeth ac ystod ehangach o gyfleoedd i leihau eu gwastraff, ailddefnyddio rhagor o gynhyrchion ac ailgylchu gwahanol eitemau e.e. gwisg ysgol a deunyddiau Tetrapak. Hefyd, maen nhw am i ni ei gwneud yn haws iddyn nhw leihau eu gwastraff, ailddefnyddio rhagor o gynhyrchion ac ailgylchu gwastraff yn lleol yn eu cyfleusterau ailddefnyddio ac atgyweirio.

## Mae ein cynlluniau'n cynnwys:

1. Cynyddu faint o wastraff rydyn ni'n ei ailddefnyddio a'i ailgylchu'n lleol drwy fuddsoddi mewn technoleg a helpu busnesau a thrigolion i ailgylchu mwy.
2. Parhau i ddarparu atebion ailgylchu arloesol ar gyfer gwastraff newydd ac anodd ei ailgylchu, megis cynhyrchion hylendid amsugnol, matresi a chynhyrchion eraill y cartref.
3. Darparu mwy o gyfleoedd i drigolion leihau eu gwastraff, ailddefnyddio rhagor o gynhyrchion ac ailgylchu eitemau drwy:
   - Cynyddu ystod a nifer y cyfleusterau ailddefnyddio, ailgylchu ac atgyweirio ledled y fwrdeistref sirol
   - Ei gwneud yn haws i drigolion ailgylchu gwastraff ar ymyl y ffordd ac yn ein Canolfannau Ailgylchu yn y Gymuned
4. Sicrhau bod dulliau gwaredu deunyddiau sy'n cael eu hadennill o'n gwastraff yn gynaliadwy o safbwynt amgylcheddol a moesegol.
5. Gweithio ar y cyd â phartneriaid er mwyn:
   - Ceisio ateb yn lleol o ran ailgylchu plastigau anhyblyg
   - Dod o hyd i fwy o ffyrdd i adennill ynni o'n gwastraff
   - Gwneud y mwyaf o ailgylchu eitemau diangen y mae modd eu hailddefnyddio yn ein Canolfannau Ailgylchu yn y Gymuned a'n cyfleusterau ailddefnyddio
6. Gweithio ar y cyd â Llywodraeth Cymru i wneud y mwyaf o gyfleoedd ariannu a fydd yn tyfu'r economi gylchol yn Rhondda Cynon Taf, gan gynnwys buddsoddi mewn unedau diwydiannol newydd a chyfleusterau ailgylchu sy'n defnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf yn ein parc eco arfaethedig ym Mryn Pica.
7. Datgarboneiddio ein gwasanaethau cludo gwastraff lle mae dulliau technegol, cost-effeithiol ar gael. Ymchwilio i gyfleoedd i gynhyrchu ynni gwyrdd a fydd yn cefnogi ffynhonnell ynni gynaliadwy a chost-effeithiol ar gyfer cerbydau a gwaith prosesu gwastraff.







## Mesurau/targedau:

- *Bydd 80% o holl wastraff dinesig Rhondda Cynon Taf yn cael ei ailddefnyddio neu ei ailgylchu erbyn 2025*
- *Bydd 80% o'r ynni a gaiff ei ddefnyddio yn ein cyfleuster ailgylchu deunyddiau ym Mryn Pica yn dod o ffynonellau adnewyddadwy erbyn 2025*
- *Cynyddu nifer y tunelli o eitemau diangen sy ddim yn mynd i safleoedd tirlenwi drwy ein **cyfleusterau ailddefnyddio** i o leiaf 1,000 o dunelli erbyn 2025 (llinell sylfaen 2021 - 800 o dunelli)*





## Rhoi seilwaith carbon isel ar waith a hyrwyddo menter teithio llesol

Erbyn 2030, mae angen i ni sicrhau bod dros hanner holl deithiau pobl ar drafnidiaeth gyhoeddus, ar feic neu ar droed, a bod teithiau'n defnyddio cerbydau trydan lle dydy hyn ddim yn bosibl.

Ymhlith pethau eraill, dywedodd trigolion wrthon ni eu bod nhw am i ni ddarparu opsiynau trafnidiaeth gyhoeddus mwy cynaliadwy, rheolaidd a hygyrch, gan gynnwys helpu pobl i newid i ddefnyddio cerbydau trydan drwy sicrhau bod rhagor o bwyntiau gwefru cyhoeddus ar gael. Maen nhw hefyd eisiau i gyfleoedd teithio llesol diogel fod yn fwy ac yn well, gan ei gwneud yn haws i feicio. Mae hyn yn cynnwys darparu mannau storio beiciau'n ddiogel a chyfleusterau llogi beiciau mewn lleoliadau allweddol, e.e. canol trefi a chanolfannau trafnidiaeth.

## Mae ein cynlluniau'n cynnwys:

1. Buddsoddi mewn opsiynau trafnidiaeth amgen gan gynnwys:
   - Gwell trafnidiaeth gyhoeddus o ganlyniad i ddatblygu Metro De Cymru
   - Buddsoddi o leiaf £1.5 miliwn y flwyddyn am y tair blynedd hyd at 2025 mewn mentrau teithio llesol sy'n annog cerdded a beicio
   - Buddsoddi mewn llwybrau diogel i ysgolion ledled y fwrdeistref sirol
   - Buddsoddi mewn cyfleusterau parcio a theithio ledled y fwrdeistref sirol, gan gynnwys safleoedd Metro allweddol a chyfnewidfeydd trafnidiaeth
2. Ymchwilio i gyfleoedd i ddatblygu'r rhwydwaith teithio llesol ymhellach i gyrchfannau pwysig, a chyfnewidfeydd trafnidiaeth gyhoeddus yn y fwrdeistref sirol, gan gynnwys mannau storio a llogi beiciau. Dylid rhoi ystyriaeth i deithio llesol ym mhob prosiect trafnidiaeth sylweddol.
3. Rhoi ein strategaeth **gwefru cerbydau trydan** a'i chynllun gweithredu ategol ar waith. Bydd hyn yn darparu ar gyfer anghenion trafnidiaeth y rheiny sy'n defnyddio cerbydau trydan nawr ac yn y dyfodol.
4. Gweithio ar y cyd â'r sector preifat i sefydlu rhwydwaith hygyrch o gyfleoedd gwefru cerbydau trydan ledled y fwrdeistref sirol, a'u buddsoddi ynddyn nhw, i ysgogi'r farchnad ac ehangu cyfleoedd gwefru cerbydau trydan.
5. Helpu darparwyr trafnidiaeth gyhoeddus i ddod yn fwy cynaliadwy a newid o dacsis a bysiau trydan i rai diesel.
6. Gweithio ar y cyd â Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd ac Awdurdod Trafnidiaeth Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, Trafnidiaeth Cymru a Llywodraeth Cymru i ddatblygu seilwaith a gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus i alluogi teithio cynaliadwy ledled y rhanbarth a fydd yn bodloni'r galw yn y dyfodol.
7. Sicrhau bod y gwasanaethau trafnidiaeth rydyn ni'n eu comisiynu, gan gynnwys o'r cartref i'r ysgol, yn ddi-garbon neu'n garbon isel lle bo modd.
8. Cyfrannu at ffyrdd mwy diogel a gwell ansawdd aer drwy gyflwyno terfyn cyflymder safonol o 20 milltir yr awr yn ôl ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gefnogi teithio llesol, yn ogystal â darpariaethau sy'n deillio o'r ddeddfwriaeth aer glân arfaethedig yng Nghymru, gan gynnwys mesurau i fynd i'r afael â cherbydau sydd â'u hinjan ymlaen tra'n segur, hynny yw parthau 'dim segura'.
9. Gweithio ar y cyd â Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd i ddatblygu cynllun trafnidiaeth rhanbarthol erbyn 2024.

## Mesurau/targedau:

- *Nifer y pwyntiau gwefru cerbydau trydan wedi'u gosod yn eiddo'r Cyngor yn ystod y pum mlynedd nesaf*
- *Cynnydd yn nifer y dyfeisiau gwefru fesul 100,000 o'r boblogaeth erbyn 2025*
- *Erbyn 2030, bydd 90% o drigolion Rhondda Cynon Taf sydd heb fynediad at gyfleuster gwefru cerbydau trydan gartref o fewn milltir i bwynt gwefru cerbydau trydan sy'n hygyrch i'r cyhoedd*
- *Newid yng nghanran y cerbydau di-allyriadau sy'n cludo teithwyr erbyn 2030. Aros am darged LlC*
- *25% o deithiau ar droed, beic neu drafnidiaeth gyhoeddus erbyn 2025*
- *20% yn fwy o deithwyr yn defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus erbyn 2025 o'i gymharu â blwyddyn y llinell sylfaen (2009)*
- *Bydd 5% o gilfannau mewn meysydd parcio sy'n eiddo i'r Cyngor yn gilfannau gwefru erbyn 2028, yn amodol ar gyllid*
- *Cynnydd yn nifer y cilomedrau o lwybrau teithio llesol yn y fwrdeistref sirol*
- *Sefydlu llinell sylfaen nifer y disgyblion sy'n cerdded, beicio neu'n defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus i deithio i'r ysgol, a'i chynyddu 10% erbyn 2025*

## Diogelu ein mannau gwyllt, a'u gwella. Gweithio mewn modd sy'n ystyriol o fyd natur i fynd i'r afael â'r argyfyngau o ran y newid yn yr hinsawdd a byd natur a sicrhau bod ein cymunedau yn elwa arnyn nhw

Ymhlith pethau eraill, dywedodd trigolion wrthon ni eu bod nhw am i ni greu coetir i atal llifogydd, erydiad tir a gwella'r broses o ddal a storio carbon. Maen nhw hefyd am weld gwell bioamrywiaeth ar safleoedd bywyd gwyllt yn ogystal ag yn eu cymunedau lleol.

## Mae ein cynlluniau'n cynnwys:

1. Gwarchod ein storfeydd carbon mwyaf gwerthfawr, a'u gwella, mewn priddoedd heb eu cyffwrdd a llystyfiant lled-naturiol mewn coedwigoedd, rhostir a glaswelltiroedd ledled y fwrdeistref sirol.
2. Rheoli mawnogydd mae'r Cyngor yn berchen arnyn nhw er mwyn lleihau allyriadau carbon a, lle bo'n bosibl, adfer bioamrywiaeth ac atafaelu carbon.
3. Rheoli ein tir a'n mannau gwyrdd fel eu bod nhw'n gallu ymdopi'n well â hinsawdd sy'n newid, a fel eu bod nhw'n gwella'r buddion maen nhw'n eu darparu i gymunedau.
4. Parhau i ymchwilio i gyfleoedd i ddefnyddio prosesau naturiol, seilwaith gwyrdd a thechnegau rheoli perthnasol yng nghefn gwlad Rhondda Cynon Taf, yn ogystal â'u hyrwyddo, i leihau risgiau amgylcheddol megis llifogydd a thanau gwyllt, er enghraifft, **Prosiect Llethrau Llont** (Saesneg yn unig).
5. Rhannu gwybodaeth a sgiliau i warchod, gwerthfawrogi, gwella a rheoli ein coed, gwrychoedd a choetiroedd, helpu i fynd i'r afael â'r argyfyngau wedi'u datgan gan Lywodraeth Cymru o ran **y newid yn yr hinsawdd** a **byd natur** a lansio gwefan derfynol y **Bartneriaeth Natur Leol**.
6. Gweithio ar y cyd â phartneriaid i fapio ac adolygu'r tir rydyn ni'n berchen arno er mwyn ei reoli yn y ffordd orau, gan gynnwys nodi coetir naturiol i'w adfywio, safleoedd sy'n addas ar gyfer cynhyrchu bwyd a lle mae plannu coed yn briodol, a'r potensial ar gyfer dal a storio carbon ac adfer mawnogydd.
7. Gweithio ar y cyd â phartneriaid i ehangu'r seilwaith gwyrdd ac amaethgoedwigaeth. Mae hyn er mwyn cyfyngu ar dorri coed a fydd yn ei dro yn cynyddu mesurau amddiffyn rhag llifogydd yn sylweddol.
8. Lleihau risg llifogydd, a hynny drwy hyrwyddo dulliau sy'n seiliedig ar natur mewn lleoliadau priodol, yn ogystal â gwaith peirianyddol traddodiadol, er enghraifft systemau draenio cynaliadwy.
9. Parhau i ddatblygu 'tirwedd fyw' gan ddwyn ynghyd safleoedd bywyd gwyllt sy'n bodoli eisoes, cymunedau lleol, sefydliadau bywyd gwyllt a choetiroedd hynafol.
10. Cyfrannu at fenter Canopi Gwyrdd y Frenhines a **Choedwig Genedlaethol Cymru** wrth blannu coed cynaliadwy. Byddwn ni'n buddsoddi £200,000 y flwyddyn tan 2030 wrth blannu coed a gwrychoedd newydd.
11. Attracting private sector investment to increase areas of woodland regeneration and creation, ensuring that we protect and store carbon and reduce the risk of flooding.

## Mesurau/targedau:

- *Cynyddu nifer y tiroedd mae Rhondda Cynon Taf a'i bartneriaid yn berchen arnyn nhw sy wedi'u rheoli er budd bywyd gwyllt i 100 erbyn 2030*
- *Cynyddu ardal rheoli blodau gwyllt RhCT o leiaf 3% y flwyddyn o linell sylfaen 2021/22*
- *Cynyddu ardal o orchudd coed yn y pum ardal drefol â'r lefel orchudd leiaf (llinell sylfaen 2013)*
- *Rheoli'r holl fawnogydd y mae'r Cyngor yn berchen arnyn nhw erbyn 2023*
- *Lleihau effeithiau llifogydd ar yr eiddo wedi'u diogelu rhag risg llifogydd*
- *Cynyddu nifer y prosiectau lleihau risg llifogydd wedi'u seilio ar natur*
- *Nodi llinell sylfaen gywir o orchudd coetir RhCT er mwyn llywio gwaith rheoli yn y dyfodol trwy*
  - *Llunio map gorchudd coetir RhCT erbyn 2024, gan nodi holl goetiroedd mae'r Cyngor yn berchen arnyn nhw.*
  - *Nodi cyfradd adfywio coetir naturiol ar safleoedd coetir mae'r Cyngor yn berchen arnyn nhw sydd dros 10 hectar, sydd wedi'u nodi yn y prosiect lleihau ôl troed carbon.*
- *Erbyn 2025, pennu targed ar gyfer cynyddu gorchudd coetir mewn modd cynaliadwy trwy waith adfywio naturiol.*

# Hinsawdd Ystyriol – FFYNIANT

## Nodi uchelgeisiau di-garbon ar gyfer cartrefi newydd a datblygiadau yn y dyfodol yn rhan o'n cynllun datblygu lleol

Ymysg pethau eraill, dywedodd trigolion wrthon ni eu bod nhw am i ni leihau'r angen i deithio, a hynny drwy gefnogi datblygiad 'cymdogaethau 15 munud' lle mae amwynderau yn agos at ble mae pobl yn byw. Maen nhw am i ni ddarparu coridorau bywyd gwyllt yn rhan o ddatblygiadau newydd, yn ogystal â diogelu mannau gwyrdd yn agos i gymunedau, a'u creu nhw hefyd.

## Mae ein cynlluniau'n cynnwys:

1. Rhoi'r newid yn yr hinsawdd wrth wraidd ein cynllun datblygu lleol, sy'n cael ei adnewyddu ar hyn o bryd.
2. Mynd i'r afael â lleihau allyriadau carbon yn y cam datblygu a chynllunio, gan gynnwys pa mor agos y mae datblygiadau at fannau a chyfleusterau cyhoeddus.
3. Cefnogi datblygiad ar safleoedd tir llwyd sy'n bodoli eisoes, yn enwedig canol trefi, yn hytrach nag adeiladu ar safleoedd tir glas lle bo modd.
4. Cynyddu'r cyfle a'r cyflenwad tir ar gyfer cartrefi di-garbon newydd yn rhan o'n cynllun datblygu lleol a sicrhau eu bod nhw wedi'u lleoli mewn mannau sy'n lleihau'r angen i ddefnyddio ceir.
5. Sicrhau bod pob datblygiad tai a masnachol newydd yn hawdd ei gyrraedd ar lwybr teithio llesol a/neu drafnidiaeth gyhoeddus.
6. Cyflwyno safonau ar gyfer adeiladu tai newydd.
7. Gwarchod ucheldiroedd a chynefinoedd pwysig Rhondda Cynon Taf, gan gynnwys mawnogydd.
8. Lle bo'n briodol, defnyddio amodau cynllunio i adfer cynefinoedd yn rhan o ddatblygiadau newydd.
9. Lleihau risg llifogydd, a hynny drwy hyrwyddo dulliau sy'n seiliedig ar natur mewn lleoliadau priodol, yn ogystal â gwaith peirianyddol traddodiadol, er enghraifft systemau draenio cynaliadwy.
10. Sicrhau bod datblygiadau tai a datblygiadau masnachol newydd yn cynnwys cyfleusterau ynni solar, ble'n bosibl, a'u bod nhw'n meddu ar y gallu i gynhyrchu, storio a defnyddio ynni adnewyddadwy ar y safle a chynnig pwyntiau gwefru cerbydau trydan.




## Mesurau/targedau:

- *Erbyn 2025 fydd pob datblygiad tai rhent cymdeithasol newydd ddim wedi'i gysylltu â'r grid nwy. Bydd y tai'n defnyddio ffynonellau gwresogi adnewyddadwy eraill*
- *Erbyn 2030 bydd pob datblygiad tai newydd yn garbon niwtral. Ein huchelgais yw y bydd pob datblygiad tai newydd yn Rhondda Cynon Taf yn garbon niwtral o 2026 ymlaen**
- *Nifer y cartrefi cynaliadwy/di-garbon yn Rhondda Cynon Taf*
- *Datblygiadau newydd a phriodol yn agos at lwybrau/cyfnewidfeydd trafnidiaeth gyhoeddus a/neu lwybrau teithio llesol*

**Erbyn 2025 bydd yr holl gartrefi fforddiadwy newydd yng Nghymru yn cael eu hadeiladu i safon carbon sero net. Ein huchelgais yw bod ein safonau carbon sero net yn cael eu mabwysiadu gan ddatblygwyr pob cartref newydd waeth beth fo'u deiliadaeth erbyn y dyddiad yma **Cymru Sero Net - Cyllideb Garbon (2) Llywodraeth Cymru**.*

## Gwneud cartrefi sy'n bodoli eisoes yn fwy effeithlon o ran ynni

Bydd gwneud cartrefi traddodiadol cymoedd Rhondda Cynon Taf yn fwy effeithlon o ran ynni yn her sylweddol. Mae 73% o gartrefi â sgôr D o ran eu perfformiad ynni. Ymhlith pethau eraill, dywedodd trigolion wrthon ni eu bod nhw am i ni ddarparu cymorth, gan gynnwys grantiau a gwybodaeth i helpu pobl i wneud eu cartrefi yn fwy effeithlon o ran ynni a gosod technoleg newydd megis paneli solar a phympiau gwres yn eu cartrefi. Maen nhw hefyd am i ni ymchwilio i ddulliau gwresogi newydd, megis gwresogi cymunedol.

## Mae ein cynlluniau'n cynnwys:

1. Gweithio ar y cyd â landlordiaid a pherchnogion tai i leihau faint o ynni a gaiff ei ddefnyddio mewn cartrefi sy'n bodoli eisoes, gan gyrraedd lefel ddi-garbon pan fo hynny'n ymarferol, erbyn 2050, yn unol ag adroddiad **Cartrefi Gwell, Cymru Well Cymru, Byd Gwell**.
2. Ymchwilio i ffyrdd arloesol o ddatgarboneiddio'r holl stoc tai, gan ystyried systemau'r pympiau gwres a chyfleoedd o ran defnyddio hydrogen.
3. Cynyddu effeithlonrwydd ynni cartrefi sy'n eiddo preifat a thai rhent yn rhan o'n strategaeth **Tlodi Tanwydd Cartrefi Cynhesach 2019-2023** (Saesneg yn unig), a hynny drwy helpu i wella insiwleiddio a defnyddio offer carbon isel mwy effeithlon.
4. Gweithio ar y cyd â landlordiaid cymdeithasol cofrestredig i wneud eu tai cyfredol yn fwy effeithlon o ran ynni.






### Mesurau/targedau:

- *Nifer y mesurau arbed ynni wedi'u gosod mewn cartrefi yn Rhondda Cynon Taf*

## Cefnogi busnesau lleol i ddod yn fwy cynaliadwy a manteisio ar y cyfleoedd newydd y mae economïau gwyrdd a newydd yn eu cynnig

Ymhlith pethau eraill, dywedodd trigolion wrthon ni eu bod nhw am i ni annog mwy o siopau 'ailddefnyddio a thrwsio' i agor ar y stryd fawr, ac annog busnesau i fod yn fwy cynaliadwy, e.e. lleihau nifer yr eitemau plastig untro a gweithredu cynlluniau dychwelyd ernes ar gyfer poteli a chynwysyddion.

### Mae ein cynlluniau'n cynnwys:

1. Ystyried sut y gall ein grantiau busnes helpu busnesau lleol i ddod yn fwy cynaliadwy.
2. Gweithio ar y cyd â Llywodraeth Cymru i helpu busnesau i ddileu gwastraff a rhoi egwyddorion economi gylchol ar waith, megis lleihau llygredd ac ymestyn oes cynhyrchion a deunyddiau.
3. Gweithio ar y cyd â busnesau lleol i'w helpu i ddod o hyd i gynnyrch mwy cynaliadwy yn lleol, a gwerthu i farchnadoedd lleol.
4. Cefnogi datblygiad 'twristiaeth werdd', hyrwyddo twf cynaliadwy'r economi ymwelwyr yn Rhondda Cynon Taf, tyfu'r economi leol ar yr un pryd â gwarchod ein mannau gwyrdd a'n hasedau naturiol.
5. Cefnogi busnesau lleol, yn enwedig busnesau bach a chanolig, wrth eu helpu i ddatblygu'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen arnyn nhw i fod yn fwy parod i dendro am gyfleoedd addas ar gyfer contractau'r Cyngor yn ôl y gofyn.
6. Dod â'r sector cyhoeddus, y trydydd sector, busnesau a'r byd academaidd ynghyd i wneud y gorau o'n gwaith fel bod modd i ni i gyd gyflawni ein targedau o ran lleihau carbon.
7. Defnyddio plannu naturiol mewn ardaloedd cyhoeddus yng nghanol ein trefi i wella ansawdd aer a lles, lleihau risg llifogydd, darparu oeri yn ystod tywydd poeth a manteision eraill i drigolion elwa arnyn nhw.




### Mesurau/targedau:

- *Datblygu cyfres o fesurau yn ymwneud â chymorth i helpu busnesau i ddod yn fwy cynaliadwy*

## Darparu cyfleoedd i bobl o bob oed ennill y sgiliau sydd eu hangen arnyn nhw i weithio yn yr economi werdd sy'n datblygu ac i fyw'n fwy cynaliadwy

Bydd cyrraedd sero net yn golygu y bydd raid i bobl gaffael sgiliau newydd i wneud swyddi newydd a gwahanol gyda thechnolegau newydd. Bydd hefyd yn golygu atgyfodi sgiliau 'traddodiadol' sydd wedi'u colli. Ymhlith pethau eraill, dywedodd trigolion wrthon ni eu bod nhw am i ni gyflwyno garddio mewn ysgolion, a chael mwy o gyfleoedd i gyfnewid sgiliau.

## Mae ein cynlluniau'n cynnwys:

1. Gweithio ar y cyd â Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, prifysgolion, colegau, a darparwyr addysg i ddarparu cyfleoedd i bobl gael y sgiliau sydd eu hangen arnyn nhw ar gyfer swyddi yn yr economi werdd a gyda thechnolegau newydd.
2. Gweithio ar y cyd â busnesau lleol, partneriaid a'n hysgolion i hyrwyddo llwybrau gyrfaoedd a chyfleoedd mewn sectorau sy'n dod i'r amlwg, gan helpu pobl ifainc i ddod i benderfyniadau am eu hastudiaethau a'u gyrfaoedd yn y dyfodol.
3. Nodi cyfleoedd gwaith mewn sectorau newydd a sectorau sy'n dod i'r amlwg, gweithio ar y cyd â chyflogwyr i ddeall eu gofynion a helpu pobl i fanteisio ar yr opsiynau sydd ar gael trwy hyfforddiant, dysgu sgiliau newydd a chymorth yn y gwaith.
4. Hyrwyddo datblygiad garddwriaeth a sgiliau technegol eraill yn y gymuned i gefnogi twf diwydiant bwyd cynaliadwy.
5. Ehangu ein hystod o gyrsiau addysg i oedolion i roi mwy o gyfleoedd i bobl ddatblygu sgiliau y gallan nhw eu defnyddio i gyfrannu at fwrdeistref sirol niwtral o ran carbon, e.e. gweithdai diwastraff, garddio organig/sy'n ystyriol o fywyd gwyllt, crefftau treftadaeth a chadwraeth leol.
6. Hybu dealltwriaeth ynghylch carbon ac ecoleg yn ein hysgolion ac yn y Cyngor.
7. Parhau i weithio'n rhan o bartneriaeth ag ysgolion fel bod modd darparu a defnyddio ardaloedd ecoleg ar safleoedd Ysgolion yr 21ain Ganrif ar gyfer dysgu, ac annog hyn hefyd.
8. Creu prosiectau arloesol gyda'r nod o gysylltu datblygiadau'r cwricwlwm ysgol newydd â gwaith y strategaeth yma.



### Mesurau/targedau:

- *Llunio cyfres o fesurau a fydd yn cynnwys:*
  - *Cyfleoedd hyfforddi/swyddi sy'n gysylltiedig â thechnolegau gwyrdd a thechnoleg sy'n dod i'r amlwg*
  - *Nifer y bobl sy'n elwa ar y gwaith yma*
  - *Ymgysylltiad ysgolion â mentrau 'gwyrdd'*

# Hinsawdd Ystyriol – POBL





## Cefnogi gwahanol ddewisiadau o ran ffordd o fyw, a'u hannog

Byddwn ni'n gweithio ar y cyd â thrigolion i ddatblygu cynlluniau'r Cyngor i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd. Byddwn ni hefyd yn eu hannog a'u cefnogi i wneud newidiadau i'w ffordd o fyw a gwneud y dewisiadau a fydd yn helpu Rhondda Cynon Taf i ddod mor agos â phosibl at fod yn garbon niwtral erbyn 2030.

Ymhlith pethau eraill, dywedodd trigolion wrthon ni eu bod nhw am i ni arwain drwy esiampl, e.e. cael gwared ar ein defnydd o blastig untro ac annog ein staff i deithio'n gynaliadwy i'r gwaith ac ar ei gyfer; annog pobl i feddwl am leihau faint maen nhw'n eu defnyddio, e.e. hybu meddylfryd 'defnyddio llai, defnyddio'n well, ailgylchu mwy' a phrynu mwy o gynnyrch lleol.

## Mae ein cynlluniau'n cynnwys:

1. Arwain trwy esiampl, e.e. cael gwared ar ein defnydd o blastig untro, gosod paneli solar ar adeiladau'r Cyngor ac ati, ac annog ein staff i wneud dewisiadau teithio cynaliadwy.
2. Annog trigolion a busnesau i leihau eu gwastraff, ailddefnyddio rhagor o gynhyrchion ac ailgylchu gwastraff, a fydd hefyd yn ein helpu i gyflawni ein targed ailgylchu uchelgeisiol o 80% erbyn 2025.
3. Annog trigolion i leihau gwastraff bwyd gartref drwy ddarparu adnoddau addysgiadol, ryseitiau ac awgrymiadau ymarferol.
4. Gweithio ar y cyd â chymunedau a thrigolion i annog pobl i fwyta prydau sy'n ystyriol o'r hinsawdd, gan gynnwys bwyta llai o gig.
5. Annog pobl i stopio defnyddio trafnidiaeth sy'n defnyddio tanwydd carbon fel bod hanner y teithiau ar droed, ar feic neu ar drafnidiaeth gyhoeddus erbyn 2030.
6. Annog plant a theuluoedd i gerdded i'r ysgol, gan gynnwys drwy gefnogi menter **Strydoedd Ysgol** (Saesneg yn unig) i leihau traffig ger gatiau'r ysgol a mynd i'r afael â llygredd aer.
7. Annog pobl i gefnogi gwelliannau mewn ansawdd aer trwy hyrwyddo ymddygiad gyrru da. Mae hyn yn cynnwys gweithredu parthau dim segura a chyfyngiadau cyflymder is.
8. Annog a chefnogi perchnogion tai i wella effeithlonrwydd ynni eu cartrefi gan anelu at gartrefi di-garbon erbyn 2050.
9. Datblygu cyfleuster ym **Mharc Coffa Ynysangharad** a fydd yn ennyn diddordeb pobl yn eu hamgylchedd lleol ac yn cyfrannu at weithgareddau sy'n cael effaith gadarnhaol ar yr hinsawdd, gan gynyddu arbenigedd a chariad at natur.
10. Cynnwys a gweithio ar y cyd â thrigolion a grwpiau cymunedol i ddatblygu mentrau bioamrywiaeth gan gynnwys 'Grab a Rake', rheoli ymylon, partneriaeth '**Action for Nature**', gwarchod mawnogydd, cofnodi ein bywyd gwyllt a datblygu prosiect 'tirwedd fyw', gan ddod â lleoedd gwyllt a grwpiau lleol ynghyd er budd natur.
11. Annog menywod a merched i ystyried defnyddio cynhyrchion misglwyf cynaliadwy y mae modd eu hailddefnyddio drwy ddarparu addysg a mynediad at gynnyrch cynaliadwy yn y gymuned ac ysgolion a hefyd lobïo Llywodraeth Cymru i godi proffil y mentrau yma ledled Cymru.

## Mesurau/targedau:

- *Cynyddu nifer yr ymgyrchoedd i roi gwybod i drigolion a'u hannog i wneud dewisiadau da mewn perthynas â materion yr hinsawdd*
- *% y cynhyrchion misglwyf a gaiff eu darparu mewn cymunedau ac ysgolion y mae modd eu hailddefnyddio neu sydd heb blastig a nifer y sesiynau gwybodaeth wedi'u cynnal i hybu eu defnydd*

# Gweithio ar y cyd â sefydliadau'r trydydd sector, rhwydweithiau cymdogaethau a phartneriaid eraill i wneud y mwyaf o adnoddau pawb er mwyn cael bwrdeistref sirol carbon niwtral

Ymhlith pethau eraill, dywedodd trigolion wrthon ni eu bod nhw am i ni weithio ar y cyd â grwpiau a rhwydweithiau cymunedol sy'n bodoli eisoes i hyrwyddo ac ehangu mentrau sydd eisoes ar waith yn y fwrdeistref sirol, e.e. caffis atgyweirio.

## Mae ein cynlluniau'n cynnwys:

1. Gweithio ar y cyd â sefydliadau'r trydydd sector i sicrhau cynaliadwyedd cyfleusterau/lleoliadau cymunedol yn Rhondda Cynon Taf, lleihau effaith prisiau ynni cynyddol a gwella effeithlonrwydd ynni. Mae hyn yn cynnwys adeiladau'r Cyngor ar brydles i grwpiau'r trydydd sector.
2. Hyrwyddo caffis atgyweirio sy'n bodoli eisoes yn y fwrdeistref sirol ac annog mentrau a lleoliadau newydd i ymestyn oes cynhyrchion a deunyddiau yn ddiogel, ac annog gostyngiad yn y defnydd o gynhyrchion newydd.
3. Sicrhau bod effeithiau ar yr hinsawdd yn cael eu hystyried wrth asesu a chymeradwyo Trosglwyddo Asedau Cymunedol.
4. Gweithio ar y cyd â'n Cyngor Gwirfoddol Cymunedol, Interlink Rhondda Cynon Taf a sefydliadau'r trydydd sector , gan gynnwys grwpiau Cymraeg, i ddarparu a hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer gwirfoddoli a fydd yn ennyn diddordeb pobl i gefnogi'r amgylchedd lleol a'u helpu i ddatblygu sgiliau perthnasol i helpu â chyflawni'r uchelgais o gael bwrdeistref sirol carbon niwtral.
5. Gweithio ar y cyd â phartneriaid cymunedol i wneud y gorau o'r adnoddau sydd ar gael i sicrhau bod tir Rhondda Cynon Taf yn cael ei reoli a'i ddefnyddio'n briodol er budd ein cymunedau.
6. Nodi a deall adnoddau a gwasanaethau sydd eisoes ar gael yn y gymuned yn rhan o sefydliadau'r trydydd sector, grwpiau cymunedol ac arbenigwyr gwirfoddol.

## Mesurau/targedau:

- *Datblygu cyfres o fesurau i ddangos sut rydyn ni'n manteisio i'r eithaf ar ein hadnoddau*
- *Sefydlu data llinell sylfaen ar gyfer nifer y caffis atgyweirio neu debyg ledled y fwrdeistref sirol*

## Hyrwyddo bwyd cynaliadwy, lleol mewn cymunedau ac wrth ddarparu gwasanaethau

Ymhlith pethau eraill, dywedodd trigolion wrthon ni eu bod nhw am i ni helpu pobl i dyfu bwyd yn nes at eu cartrefi, annog a rhoi gwybod i bobl am fanteision bwyta mwy o brydau sy'n deillio o blanhigion a chefnogi tyfu ffrwythau a llysiau yn y gymuned, a'u rhannu.

### Mae ein cynlluniau'n cynnwys:

1. Gweithio ar y cyd â phartneriaid i ddatblygu rhwydwaith ffyniant bwyd. Ei nod fyddai creu cyfleuster bwyd cynaliadwy yn Rhondda Cynon Taf. Ei uchelgais fyddai ennill **gwobr aur Sustainable Food Places**, gan ennill gwobr efydd erbyn mis Mehefin 2023.
2. Datblygu gweithgareddau 'o'r fferm i'r fforc' ym Mharc Ynysangharad er mwyn tyfu llysiau ffres i'w defnyddio'n lleol a threialu sut y byddai modd cymhwyso'r model yma i barciau a thir y Cyngor ar gyfer cynhyrchu bwyd gan y gymuned ac ar ei chyfer.
3. Lleihau effaith amgylcheddol bwyd y mae'r Cyngor yn ei ddarparu, a hynny drwy gaffael a dewis prydau sy'n fwy ystyriol o'r hinsawdd.
4. Parhau i weithio ar y cyd â grwpiau cymunedol i drosglwyddo asedau'r Cyngor, pan fyddan nhw ar gael, ar gyfer gweithgareddau bwyd cynaliadwy.
5. Darparu mwy o gyfleoedd i drigolion dyfu eu bwyd ffres eu hunain, e.e. trwy gynyddu nifer y rhandiroedd ledled y fwrdeistref sirol, archwilio'r defnydd o leiniau micro, cydweithio a gwirfoddoli ac hefyd datblygu pecyn cymorth i ddeiliaid lleiniau newydd.
6. Gweithio ar y cyd â phartneriaid i fapio'r tir rydyn ni'n berchen arno er mwyn deall yn well botensial ein tir i dyfu bwyd.
7. Cyfrannu at y drafodaeth gyda Llywodraeth Cymru ar ddatblygu Strategaeth Bwyd Cymunedol Cymru.



### Mesurau/targedau:

- *Sefydlu llinell sylfaen o weithgareddau tyfu bwyd ledled Rhondda Cynon Taf*
- *Cynyddu nifer yr opsiynau prydau sy'n ystyriol o'r hinsawdd y mae'r Cyngor yn eu cynnig yn ein hysgolion, ein swyddfeydd a'n gwasanaeth prydau yn y gymuned o linell sylfaen a fydd yn cael ei sefydlu yn 2022/23*

## Codi ymwybyddiaeth o'r hinsawdd

Ymhlith pethau eraill, dywedodd trigolion a staff wrthon ni eu bod nhw am i ni gynyddu ymwybyddiaeth o newid yn yr hinsawdd a darparu cyfleoedd i drigolion a chymunedau gymryd rhan wrth geisio atebion at ddod yn fwrdeistref sirol carbon niwtral.

## Mae ein cynlluniau'n cynnwys:

1. Darparu ffyrdd clir, syml ac ymarferol o annog pawb i chwarae eu rhan i leihau carbon gartref, yn y gwaith ac wrth symud o gwmpas.
2. Gwrando ar yr hyn y mae ein trigolion o bob oed yn ei ddweud wrthon ni, a'i ddeall.
3. Gwahodd ac annog trigolion, busnesau, staff a'u cynrychiolwyr i drafod yr hyn y mae modd i'r Cyngor ei wneud i'w helpu i leihau eu hôl troed carbon a'r hyn y mae modd iddyn nhw ei wneud drostyn nhw eu hunain.
4. Gweithio ar y cyd â phobl ifainc, gan gynnwys mewn ysgolion a'u cynghorau eco, grwpiau ieuenctid a phrosiectau'r celfyddydau mewn ffyrdd a allai helpu i lunio ein cynlluniau ar gyfer eu dyfodol nhw.
5. Gweithio ar y cyd â grwpiau cymunedol, gan gynnwys y Grŵp Cynghori Pobl Hŷn a'r rheiny nad ydyn ni'n clywed eu lleisiau'n aml, a hynny er mwyn iddyn nhw allu cyfrannu at, a llunio, ein cynlluniau ar gyfer y dyfodol.
6. Datblygu prosiectau rhwng cenedlaethau sy'n gwella sgiliau a bywydau pobl yn ein cymunedau.
7. Darparu cyfleoedd i gymunedau gymryd rhan wrth geisio atebion lleol trwy rwydweithiau cymdogaethau.








## Mesurau/targedau:

- *Cynyddu nifer y cyfleoedd i drigolion a chymunedau gymryd rhan yn y sgwrs barhaus ar y newid yn yr hinsawdd*




# LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL

## Cenedlaethau'r Dyfodol

Wrth baratoi'r Strategaeth yma mae'r Cyngor wedi ystyried gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gan ddod i benderfyniadau a chymryd camau gweithredu heddiw sydd ddim ar draul cenedlaethau'r dyfodol.

Mae'r Ddeddf yn canolbwyntio ar wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r ddeddf yn gwneud i gyrff cyhoeddus, fel y Cyngor, feddwl yn well am yr hirdymor, gweithio'n well gyda phobl a chymunedau a'i gilydd, a chwilio am ffyrdd i atal problemau a mabwysiadu dull sy'n fwy cydweithredol. Bydd hyn yn ein helpu i greu Cymru well i'w thrigolion, heddiw ac yn y dyfodol. I sicrhau ein bod ni i gyd yn gweithio tuag at yr un weledigaeth, mae'r Ddeddf yn nodi saith nod llesiant:

- Cymru lewyrchus
- Cymru gydnerth
- Cymru iachach
- Cymru sy'n fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau cydlynus
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Dull y Cyngor mewn perthynas â **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** (Saesneg yn unig) yw gwreiddio ei holl ofynion yn rhan o'n gwaith, gan gynnwys ein hymrwymiadau mewn perthynas â'r hinsawdd.

Mae'r Cynllun yma'n pennu gweledigaeth, ac ymrwymiadau mewn perthynas â'r hinsawdd, a fydd yn parhau i wneud y gorau o gyfraniad y Cyngor mewn perthynas â'r saith nod llesiant cenedlaethol. Bydd y nodau cenedlaethol, ynghyd â'r Pum Ffordd o Weithio, yn parhau i gael eu cynnwys yn rhan o'r cynlluniau gweithredu manwl a fydd yn cyflawni ymrwymiadau'r Cyngor mewn perthynas â'r hinsawdd.



Enghreifftiau o sut mae ein cynlluniau i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd yn cyfrannu at y saith nod llesiant cenedlaethol.

## Camau gweithredu RhCT mewn perthynas â'r hinsawdd

**SAFONAU NOD LLESIANT**

### CYMRU LEWYRCHUS

- Cefnogi swyddi gwyrdd newydd mewn economi carbon isel gyda nwyddau a gwasanaethau a gaiff eu caffael yn lleol a chymalau sy'n sicrhau budd i'r gymuned
- Datblygu cynlluniau a fydd o fudd i gymunedau yn awr ac yn y dyfodol, gan gynnwys trafnidiaeth gyhoeddus carbon isel well a theithio llesol
- Ystyried sut y gall ein grantiau busnes helpu busnesau lleol i ddod yn fwy cynaliadwy
- Gweithio ar y cyd â busnesau lleol i'w helpu i ddod o hyd i gynnyrch mwy cynaliadwy yn lleol, a gwerthu i farchnadoedd lleol
- Gweithio ar y cyd â busnesau a phartneriaid lleol a'n hysgolion i hyrwyddo llwybrau gyrfaoedd a chyfleoedd mewn sectorau sy'n dod i'r amlwg, gan helpu pobl ifainc i ddod i benderfyniadau am eu hastudiaethau a'u gyrfaoedd yn y dyfodol

### CYMRU GYDNERTH

- Gwarchod a gwella ein storfeydd carbon mwyaf gwerthfawr, mewn priddoedd heb eu cyffwrdd a llystyfiant lled-naturiol mewn coedwigoedd, rhostir a glaswelltiroedd
- Lleihau risg llifogydd trwy hyrwyddo dulliau atebion sy'n seiliedig ar natur
- Gwarchod ucheldiroedd a chynefinoedd pwysig Rhondda Cynon Taf gan ddefnyddio ein cynllun datblygu lleol
- Arwain trwy esiampl, e.e. y Cyngor yn stopio defnyddio plastig untro, gosod paneli solar ar ein hadeiladau, ac ati, ac annog ein staff i wneud dewisiadau teithio cynaliadwy
- Defnyddio tir y sector cyhoeddus ar gyfer cynhyrchu ynni gwyrdd/dal a storio carbon, rheoli risg llifogydd, cynyddu bioamrywiaeth a thyfu cymunedol
- Parhau i ddatblygu 'tirwedd fyw' gan ddwyn ynghyd safleoedd bywyd gwyllt, cymunedau lleol, sefydliadau bywyd gwyllt cyfredol a choetiroedd hynafol

### CYMRU IACHACH

- Cyflwyno cyfyngiadau cyflymder traffig i wella ansawdd yr aer yn ein cymunedau
- Defnyddio plannu naturiol mewn ardaloedd cyhoeddus yng nghanol ein trefi i wella ansawdd yr aer a llesiant, lleihau perygl llifogydd, darparu oeri yn ystod tywydd poeth a manteision eraill i drigolion mewn perthynas â'r hinsawdd
- Sicrhau bod pob datblygiad tai a masnachol newydd yn hawdd ei gyrraedd ar lwybrau teithio llesol a/neu ar drafnidiaeth gyhoeddus
- Annog pobl i stopio defnyddio trafnidiaeth sy'n defnyddio tanwydd carbon fel bod hanner y teithiau ar droed, ar feic neu car drafnidiaeth gyhoeddus erbyn 2030
- Annog plant a theuluoedd i gerdded i'r ysgol, gan gynnwys drwy gefnogi menter **Strydoedd Ysgol** (Saesneg yn unig) i leihau traffig ger gatiau'r ysgol a mynd i'r afael â llygredd aer

### CYMRU SY'N FWY CYFARTAL

- Mynd i'r afael â'r anghydraddoldebau y mae'r rheiny sydd fwyaf agored i effaith y newid yn yr hinsawdd yn eu hwynebu, gan gynnwys menywod a phobl ar incwm isel, gan alluogi pobl i gyflawni i'w llawn botensial
- Cynyddu effeithlonrwydd ynni cartrefi sy'n eiddo preifat a thai rhent drwy ein **Strategaeth Tlodi Tanwydd Cartrefi Cynhesach 2019-2023** (Saesneg yn unig)
- Nodi cyfleoedd gwaith mewn sectorau newydd a sectorau sy'n dod i'r amlwg, gweithio gyda chyflogwyr i ddeall eu gofynion a helpu pobl i fanteisio ar yr opsiynau sydd ar gael trwy hyfforddiant, dysgu sgiliau newydd a chymorth yn y gwaith
- Annog menywod a merched i ystyried defnyddio cynhyrchion misglwyf cynaliadwy y mae modd eu hailddefnyddio drwy ddarparu addysg a mynediad at gynnyrch cynaliadwy yn y gymuned ac ysgolion

### CYMRU O GYMUNEDAU CYDLYNUS

- Galluogi trigolion i fod yn fwy gweithgar yn eu cymunedau yn rhan o brosiectau cymunedol a defnydd cymunedol o fannau gwyrdd
- Ymchwilio i gyfleoedd i ddatblygu'r rhwydwaith teithio llesol ymhellach i gyrchfannau pwysig, a hybiau trafnidiaeth gyhoeddus yn y fwrdeistref sirol, gan gynnwys storio a llogi beiciau ac ystyried teithio llesol ym mhob prosiect trafnidiaeth sylweddol
- Gweithio ar y cyd â phartneriaid i ddatblygu rhwydwaith ffyniant bwyd er mwyn creu cyfleuster bwyd cynaliadwy yn Rhondda Cynon Taf
- Datblygu gweithgareddau 'o'r fferm i'r fforc' ym Mharc Ynysangharad, i dyfu llysiau ffres i'w defnyddio'n lleol a threialu sut y byddai modd cymhwyso'r model yma i barciau a thir y Cyngor er mwyn cynhyrchu bwyd gan y gymuned ac ar ei chyfer
- Cynnwys a gweithio gyda thrigolion a grwpiau cymunedol i ddatblygu mentrau bioamrywiaeth gan gynnwys 'Grab a Rake', rheoli ymylon, partneriaeth **'Action for Nature'** gwarchod mawnogydd, cofnodi ein bywyd gwyllt a datblygu prosiect 'tirwedd fyw', gan ddod â lleoedd gwyllt a grwpiau lleol ynghyd er budd natur

## Camau gweithredu RhCT mewn perthynas â'r hinsawdd

SAFONAU NOD LLESIANT

**CYMRU Â DIWYLLIANT BYWIOG LLE MAE'R GYMRAEG YN FFYNNU**

- Ehangu ein hystod o gyrsiau addysg i oedolion i roi mwy o gyfleoedd i bobl ddatblygu sgiliau y gallan nhw eu defnyddio i gyfrannu at fwrdeistref sirol niwtral o ran carbon, e.e. gweithdai diwastraff, garddio organig/ystyriol o fywyd gwyllt, crefftau treftadaeth a chadwraeth leol
- Gweithio gyda'n Cyngor Gwirfoddol Cymunedol, Interlink Rhondda Cynon Taf a sefydliadau'r trydydd sector, gan gynnwys grwpiau Cymraeg, i ddarparu a hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer gwirfoddoli a fydd yn ennyn diddordeb pobl i gefnogi'r amgylchedd lleol a'u helpu i ddatblygu sgiliau perthnasol i helpu â chyflawni'r uchelgais o gael bwrdeistref sirol carbon niwtral
- Gweithio ar y cyd â phobl ifainc, gan gynnwys mewn ysgolion a'u cynghorau eco, grwpiau ieuenctid a phrosiectau'r celfyddydau mewn ffyrdd a allai helpu i lunio ein cynlluniau ar gyfer eu dyfodol nhw

**CYMRU SY'N GYFRIFOL AR LEFEL FYD-EANG**

- Hwyluso ymddygiad cynaliadwy a defnyddio adnoddau byd natur yn gyfrifol gartref er mwyn cyfrannu at warchod y gwledydd a'r bobl hynny sy'n wynebu'r risg fwyaf ac sydd fwyaf agored i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd ledled y byd
- Gweithio ar y cyd â chymunedau a thrigolion i annog pobl i fwyta prydau sy'n ystyriol o'r hinsawdd
- Helpu busnesau i gael gwared ar wastraff a gweithredu egwyddorion economi gylchol, megis lleihau llygredd ac ymestyn oes cynhyrchion a deunyddiau
- Annog trigolion a busnesau i leihau eu gwastraff, ailddefnyddio rhagor o gynhyrchion ac ailgylchu gwastraff
- Cael gwared ar blastigau defnydd untro yn y Cyngor ac mewn ysgolion
- Datgarboneiddio ein gwasanaethau cludo gwastraff lle mae opsiynau technegol, cost-effeithiol ar gael. Ymchwilio i gyfleoedd i gynhyrchu ynni gwyrdd a fydd yn cefnogi ffynhonnell ynni gynaliadwy a chost-effeithiol ar gyfer cerbydau a gwaith prosesu gwastraff
- Symud y Parc Eco ym Mryn Pica yn ei flaen
- Cyfleoedd i greu ein hynni gwyrdd cynaliadwy ein hunain, a'i ddefnyddio, megis cynlluniau trydan dŵr ar raddfa fach sy'n defnyddio nodweddion naturiol afonydd a'r cwrs dŵr
- Cynyddu'r cyfle ar gyfer cartrefi di-garbon newydd, a'r cyflenwad tir

## Cynlluniau, Polsïau a Strategaethau:

| | |
|---|---|
| **Gwneud Gwahaniaeth Cynllun Corfforaethol 2020-24** | Cynllun Corfforaethol y Cyngor \| Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (rctcbc.gov.uk) |
| **Adroddiad Cyflawniad Corfforaethol 2021-22** | CorporatePerformanceReport202122.pdf (rctcbc.gov.uk) |
| **Cynllun Datblygu Lleol** | Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig 2020-2030 |
| **Teithio Llesol** | Adroddiad Blynyddol Teithio Llesol 2018 |
| **Strategaeth Gwefru Cerbydau Trydan** | Strategaeth Gwefru Cerbydau Trydan RhCT 2021-2030 |
| **Y Cynllun Trafnidiaeth Lleol** | Cynllun Trafnidiaeth Lleol Cymoedd De-ddwyrain Cymru 2015 (Saesneg yn unig) |
| **Y Ddyletswydd o ran Bioamrywiaeth** | Adroddiad Bioamrywiaeth 2019 (Saesneg yn unig) |
| **Partneriaeth Natur Leol** | Partneriaeth Natur Leol RhCT |
| **Perygl Llifogydd** | Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd Cyfrol 1 2015 (Saesneg yn unig) |
| **Strategaeth Dwristiaeth** | Strategaeth Dwristiaeth 2021 |
| **Cynllun Rheoli Ansawdd Aer** | Adroddiad Cynnydd Hydref 2021 |
| **Cymunedau Dysgu Cynaliadwy (Ysgolion yr 21ain Ganrif gynt)** | Prosiectau Buddsoddi mewn Ysgolion |
| **Cynllun Llesiant Cwm Taf** | Cynllun Llesiant Cwm Taf 2018-2023 |
| **Cynllun Rheoli Asedau** | Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol 2018-23 |
| **Strategaeth Caffael** | Strategaeth Caffael (Saesneg yn unig) |
| **Strategaeth Coed a Choetiroedd** | yn cael ei datblygu ar hyn o bryd |




Rhondda Cynon Taf
**Hinsawdd Ystyriol**

**Think Climate**
Rhondda Cynon Taf

Rhondda Cynon Taf (2022- 2025)

# Gwneud Rhondda Cynon Taf yn garbon niwtral erbyn 2030

Awst 2022 • JN: 51525-41

Os oes gyda chi unrhyw gwestiynau am y cynlluniau a'r gwaith wedi'u nodi yn y strategaeth, e-bostiwch: **NewidHinsawdd@rctcbc.gov.uk**.

RHONDDA CYNON TAF